

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Hysbysiad Preifatrwydd Cryno

ADRAN TAI

Mae'r hysbysiad hwn wedi cael ei ysgrifennu yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth berthnasol.

Y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards – Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop – Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
Data.Protection@merthyr.gov.uk
01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Dyddiad Creu: 25 Mai 2018
Adran sy'n atebol: Adran Tai
Rheolwr sy'n atebol: Julian Pike
Cyfeiriad: CBSMT, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth ar sut y mae'r Adran Tai yn casglu a phrosesu'ch data personol pan fyddwch yn cyrchu'r adran am wasanaethau.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd yn ogystal â'n Polisi Safonau Preifatrwydd a'r hysbysiad preifatrwydd llawn sy'n cynnwys rhagor o fanylion am y modd yr ydym yn prosesu data. Gellir dod o hyd iddo yma.

1. GWYBODAETH BWYSIG A PHWY YDYM NI

Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful yw'r rheolwr sy'n gyfrifol am eich data personol. Mae'r Cyngor yn cynnwys nifer o adrannau gwahanol a gellir canfod manylion amdanynt ar ein *gwefan*. Pan fyddwn yn sôn am adran, byddwn yn cyfeirio at yr Adran Tai sy'n gyfrifol am brosesu'ch data a fydd yn glir i chi pan fyddwch yn cyrchu'r gwasanaeth.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi apwyntio Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu ag ef drwy ddefnyddio'r manylion canlynol:

Mrs. Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad: Y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Y Ganolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN

E-bost: data.protection@merthyr.gov.uk
Ffôn: 01685 725000
Ffacs: 01685 725060

2. Y DATA YR YDYM YN EI GASGLU AMDANOCH

Gallwn gasglu, defnyddio, cadw a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch fel a ganlyn:

- Data hunaniaeth a chyswllt

- Data Ariannol
- Data Cyflogaeth
- Data Ffordd o Fyw
- Data Iechyd
- Data Troseddol

Yr ydym yn esbonio'r categorïau yma o ddata a'r gwahanol ddulliau y defnyddir i gasglu data amdanoch yn ein hysbysiad preifatrwydd llawn sydd ar gael ar ein *gwefan*.

3. SUT YDYM YN DEFNYDDIO'CH DATA PERSONOL

Byddwn ond yn defnyddio'ch data personol at ddibenion yr hyn yr ydym wedi ei gasglu sy'n cynnwys:

- Cofrestru fel ymgeisydd newydd
- Gwirio os ydych yn gymwys ar gyfer ein gwasanaethau
- Prosesu a darparu gwasanaethau ar eich cyfer
- Rheoli'ch perthynas â ni
- Darparu cymorth gan asiantaethau allanol
- Cynnig cymorth gan adrannau mewnol eraill

4. SUT YDYM YN RHANNU EICH DATA PERSONOL

Gallwn rannu eich data personol ag adrannau mewnol a hefyd â thrydydd parti allanol. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn ein hysbysiad preifatrwydd llawn.

5. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych hawliau yn ôl cyfreithiau diogelu data sy'n ymwneud â'ch data personol gan gynnwys yr hawl i dderbyn copi o'r data personol sydd gennym amdanoch. Manylir ar yr hawliau hyn yn yr hysbysiad preifatrwydd llawn. Mae gennych hefyd hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod arolygol y DU ar gyfer materion sy'n ymwneud â diogelu data:

Swyddog Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru)
Yr 2^{il} Lawr
Tŷ Churchill
Heol Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 029 2067 8400
Ffacs: 029 2067 8399
E-bost: casework@ico.org.uk

6. MANYLION PELLACH

Os ydych yn edrych am ragor o wybodaeth ynghylch sut yr ydym yn prosesu eich data personol yn ogystal â gwybodaeth ynghylch diogelu data, cadw data a'r sylfaen brosesu gyfreithiol, edrychwch ar ein polisi preifatrwydd llawn.